| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **28ain Chwefror 2008** |
| **TEITL** | **Gorchymyn Ardal Cyhoeddus Dynodedig ynglŷn ag yfed alcohol yn Y Bala** |
| **PWRPAS** | **I wneud gorchymyn yn cyfyngu ar yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus penodedig yn Y Bala** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo gwneud Gorchymyn Ardal Cyhoeddus Dynodedig ynglŷn ag yfed alcohol yn Y Bala** |
| **AWDUR** | **Catherine Roberts, Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd John Wyn Williams.** |

**1.0 <u>Nod yr Adroddiad</u>**

Nod yr adroddiad hwn yw cyflwyno argymhelliad i gymeradwyo gwneud Gorchymyn Ardal Gyhoeddes Dynodedig ynglŷn ag yfed alcohol ("y Gorchymyn" ) yn Y Bala. Mae tystiolaeth wedi cael ei gasglu gan system iQuanta yr Heddlu a chan bobl leol sydd yn byw ac yn gweithio yn yr ardal.

**2.0 <u>Cefndir</u>**

DEDDF CYFIAWNDER TROSEDDOL A'R HEDDLU 2001 – YFED ALCOHOL MEWN MANNAU CYHOEDDUS

Daeth adrannau 12 – 16 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu i rym ar 1 Medi, 2001. Mae'r rhain yn rhoi pŵer mabwysiedig i awdurdodau lleol gyfyngu ar yfed cyhoeddus gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus dynodedig ac maent yn rhoi'r pŵer i'r heddlu orfodi'r cyfyngiad hwn. Mae'r penderfyniad yn nwylo'r Cyngor llawn.

Mae'r ardal arfaethedig, fel yr amlinellir ar y map sydd ynghlwm, wedi cael ei llunio yn dilyn trafodaethau rhwng partneriaethau. Mae'r ardal hon wedi'i chefnogi gan dystiolaeth gan Heddlu Gogledd Cymru, y Cyngor Tref a'r gymuned ehangach. Dyma'r ardal fu'n destun yr ymgynghoriad.

Mae prosesau helaeth wedi eu dilyn i gyflwyno y bid, yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus a gyda chyrff penodol. Yn gynwysiedig yn yr ymgynghoriad oedd aelodau o'r cyhoedd o ardal Bala, dalwyr trwyddedau o'r ardal sy'n cael ei effeithio, Cyngor Tref Bala, Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaid Diogelwch Cymunedol eraill.

Ar y 10fed Medi 2007 argymhellodd Pwyllgor Ardal Meirionnydd fod y Cyngor llawn yn cefnogi gwneud Gorchymyn Dynodedig Cyhoeddus yn Y Bala.

Roedd y Pwyllgor yn credu y byddai'r gorchymyn yn fuddiol i'r ardal ac yn helpu i leihau achosion o drosedd ac anrhefn yn berthnasol i alcohol.

Yn wreiddiol cyflwynwyd y mater yma gerbron y Cyngor ar 18fed o Hydref 2007 pryd penderfynwyd cymeradwyo'r Gorchymyn. Yn ôl gofynion y Ddeddf roedd angen hysbysebu'r penderfyniad yma. Fodd bynnag daeth i'r amlwg fod gwallau yn y modd yr hysbysebwyd y bwriad yn wreiddiol. Cafwyd barn gyfreithiol y byddai'r gwallau yma yn peryglu priodoldeb y gorchymyn petai'r broses yn mynd ymlaen ymhellach. Os oedd gorchymyn i'w osod yn Y Bala byddai angen ail gychwyn y broses hysbysebu. Mae'r gwaith yma bellach wedi ei gyflawni. O ganlyniad mae angen penderfyniad pellach gan y Cyngor er sicrhau cymryd i ystyriaeth canlyniadau'r ail ymgynghoriad.

Nid yw Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn caniatáu ail benderfynu ar unrhyw fater o fewn chwe mis o ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol. Gan hynny mae'r argymhellion yn gofyn i'r Cyngor atal y Rheolau Gweithdrefn dan reol 26(1) er mwyn caniatáu i'r broses gael ei chwblhau.

## 3.0 <u>Amcan</u>

Amcan y Gorchymyn yw lleihau'r nifer o ddigwyddiadau perthnasol efo alcohol o fewn yr ardal ddynodedig.

Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi derbyn adroddiad gan y Cyngor Tref, aelodau o'r cyhoedd a'r Heddlu lleol yn cwyno am ddigwyddiadau o drosedd ac anrhefn o fewn yr ardal, oherwydd alcohol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn credu y byddai'r ardal yn cael budd gan eu hymgais i leihau trosedd, anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd alcohol.

## 4.0 <u>Y Dystiolaeth sydd ar gael</u>

Y troseddau mwyaf cyffredin allan o'r 191 trosedd a gofnodwyd yn Y Bala rhwng 1 Ionawr 2006 a 28 Chwefror 2007, oedd trais yn erbyn person.

Mae 40% o'r 55 trosedd o drais yn erbyn y person wedi eu cofnodi fod y troseddwr o dan ddylanwad alcohol

Cofnodwyd 198 o ddigwyddiadau ymddygiad stwrllyd/niwsans a thor-heddwch yn yr ardal rhwng 1 Ionawr 2006 a 28 Chwefror 2007. Y digwyddiadau mwyaf cyffredin oedd ymddygiad anystyriol stwrllyd/niwsans.

Roedd y nifer fwyaf o ddigwyddiadau yn Stryd Fawr, Cysgod y Coleg, Maes y Bronydd a Blaen Ddol.

Mae tystiolaeth storïol o ardaloedd efo gorchmynion tebyg mewn lle (Bangor, Caernarfon a Phorthmadog) yn awgrymu fod ychydig iawn o ddadleoliad, os o gwbl o drosedd ac anrhefn oherwydd alcohol, pam mae gorchymyn o'r fath yn ei lle.

Anhrefn

Cofnodwyd 198 digwyddiad ymddygiad stwrllyd/niwsans a thor-heddwch yn ardal Y Bala rhwng 1 Ionawr 2006 a 28 Chwefror 2007. Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r digwyddiadau hyn.

Ymddygiad Anystyriol stwrllyd/niwsans oedd y digwyddiadau mwyaf cyffredin.

| Math y Digwyddiad | Ionawr 06 i Chwefror 07 |
|---|---|
| Tor-heddwch | 6 |
| Stŵr/Niwsans yn ymwneud ag anifeiliaid | 2 |
| Stŵr/Niwsans Sbwriel Amgylcheddol | 1 |
| Cymdogion Stwrllyd/Niwsans | 22 |
| Stŵr/Niwsans mewn mannau cyhoeddus | 26 |
| Ymddygiad anystyriol / stwrllyd/niwsans | 115 |
| Defnyddio Tân Gwyllt yn stwrllyd/niwsans | 3 |
| Defnyddio Cerbydau yn amhriodol stwrllyd/niwsans | 23 |
| Cyfanswm | 198 |

## 5.0 Dosbarthiad Daearyddol:

Y lleoliadau mwyaf cyffredin am ddigwyddiadau stwrllyd/niwsans a thor-heddwch oedd:

- Y Stryd Fawr, gyda 38 digwyddiad
- Cysgod y Coleg, gyda 19 digwyddiad
- Maes y Bronydd, gyda 17 digwyddiad
- Blaen Ddol, gyda 14 digwyddiad

Mae'r heddlu wedi nodi fod rhai o'r digwyddiadau yma yn gorlifo i strydoedd cyfagos fel y dynodir ar y cynllun cysylltiedig (wrth droed yr adroddiad). Hefyd mae'r broses a ddefnyddir gan yr Heddlu i gofnodi'r digwyddiadau yma yn golygu fod rhai digwyddiadau mewn strydoedd cyfagos yn cael eu nodi yn erbyn cofnodion y Stryd Fawr.

## 6.0 Y Safbwynt Lleol

Mae Cyngor Tref Y Bala wedi mynegi eu cefnogaeth i'r Gorchymyn ar lafar ac yn ysgrifenedig. Roedd y pryderon a fynegwyd yn cynnwys cynnydd yn y nifer sy'n yfed alcohol ar strydoedd Y Bala gan -

i) Arwain at Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
ii) Arwain at ymddygiad ymosodol tuag at y bobl sy'n siopa yn y dref
iii) Creu delwedd anghroesawus yn y dref, yn arbennig ymysg ymwelwyr
iv) Arwain at ddirywiad diogelwch y cyhoedd

Mae'r Cyngor Tref hefyd yn cyfeirio at weithio'n agos â Heddlu Gogledd Cymru, busnesau lleol, Cymdeithas Drwyddedu Y Bala a'r Cylch, mewn ymgais i geisio ymateb i'r problemau hyn, sydd wedi arwain at gefnogi'r cais.

Mae rhai o'r trigolion sy'n byw yn yr ardal arfaethedig wedi cysylltu â'r Tîm Diogelwch Cymunedol oddi fewn y Cyngor, i gefnogi'r cais. Nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn o ganlyniad yr ymgynghori.

**7.0 Casgliad**

Ystyrir felly y gellir gwneud Gorchymyn yn y rhannau o ganol tref Y Bala a restrir isod ac a ddangosir ar y cynllun cysylltiedig.

Canol Tref Bala yn cynnwys y Stryd Fawr a Heol yr Orsaf o'r gyffordd a Heol Aran yn y Gorllewin i'r gyffordd a Heol Ffrydan yn y Dwyrain, Heol Aran rhwng y gyffordd gyda Heol Arenig yn y Gogledd a Heol y Plasey yn y De, Heol y Plasey, Heol y Domen a Heol Arenig. Hefyd, Heol Ffrydan rhwng y gyffordd gyda Heol Arenig yn y Gogledd a Heol y Domen yn y De, Stryd yr Eglwys, Heol Berwyn, Cambrian Terrace a Heol Tegid o'r gyffordd a'r Stryd Fawr hyd at gornel Sgwâr Capel Tegid. Hefyd Stryd y Castell o'i chyffordd a Heol Arenig hyd at y gyffordd gyda mynedfa Y Clwb Pêl Droed.

**ARGYMHELLIAD**

i) Fod y Cyngor yn penderfynu atal y Rheolau Gweithdrefn er caniatáu ail ystyried y penderfyniad ar 18fed o Hydref 2007 ynglŷn â gwneud Gorchymyn Ardal Dynodedig Cyhoeddus yn Y Bala.

ii) Fod y Cyngor yn penderfynu gwneud Gorchymyn Dynodedig Cyhoeddus dan Adran 13 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Heddlu 2001yn yr ardaloedd o Y Bala a adnabyddir yn yr adroddiad